# Grŵp cymdeithasol oedolion awtistig rôl hwylusydd

National Autistic Society Cymru

| Teitl y rôl | Hwylusydd grŵp cymdeithasol i oedolion awtistig |
|---|---|
| Pam mae arnom eich angen | Mae awtistiaeth yn anabledd gydol oes sy'n effeithio ar y ffordd mae rhywun yn cyfathrebu â'r bobl o'i gwmpas ac yn ymwneud â nhw. Mae'n gallu bod yn anodd i bobl ag awtistiaeth ryngweithio ag eraill a ffurfio perthnasoedd cymdeithasol.<br><br>Mae grwpiau cymdeithasol yn ffordd wych o roi cyfle i bobl awtistig wella eu hyder, eu hunan-barch a lleihau unigrwydd drwy dreulio amser gydag eraill mewn grŵp a chael gafael ar weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned. Byddai hwylusydd y grŵp cymdeithasol i oedolion awtistig yn dechrau ac yn hwyluso'r gweithgareddau grŵp hyn. |
| Yr hyn y byddwch yn ei wneud | • Cychwyn cyswllt gydag oedolion awtistig i ffurfio grŵp cymdeithasol.<br>• Hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, drwy gynllunio, trefnu a hwyluso gweithgareddau grŵp cymdeithasol i oedolion megis: mynd am dro, tripiau i'r dafarn neu am bryd o fwyd, bowlio deg ayb.<br>• Bod yn bwynt cyswllt a chysylltu â'r grŵp drwy e-bost/ cyfryngau cymdeithasol/ffôn.<br>• Mynychu gweithgareddau grŵp cefnogi.<br>• Hysbysebu a hyrwyddo gweithgareddau'r grŵp.<br>• Archebu'r lleoliadau a thalu.<br>• Meithrin perthynas gadarnhaol gydag aelodau'r grŵp i sicrhau bod yr aelodau'n teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. |
| Sgiliau, profiad a rhinweddau sydd eu hangen | • Gallu gwrando a chynnwys eraill yn y grŵp.<br>• Gallu trefnu a chynllunio.<br>• Dealltwriaeth o awtistiaeth.<br>• Empathi a dealltwriaeth.<br>• Meddwl agored ac yn barod i ddysgu.<br>• Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da.<br>• Gwirfoddoli mewn ysbryd o beidio â gwahaniaethu.<br>• Gallu gwirfoddoli fel aelod o dîm.<br>• Dibynadwy, cyson a didwyll. |

| Teitl y rôl | Hwylusydd grŵp cymdeithasol i oedolion awtistig |
|---|---|
| Ble a phryd | • Hyblygrwydd o ran diwrnodau a faint o amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer y rôl. Yn gyffredinol, cynhelir gweithgareddau grŵp unwaith y mis. |
| Sut fydd y rôl yn fuddiol i chi | • Gwella'r gefnogaeth i bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth a'u teuluoedd yn eich ardal leol.<br>• Cael hyfforddiant am ddim a dysgu sgiliau newydd.<br>• Cwrdd â phobl newydd.<br>• Ennill profiad yn y sector gwirfoddoli.<br>Rydym yn gofyn am geisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y rôl, ond rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan y rheini sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. |